

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn : Is Bwyllgor Cyllid 28/4/19

1. Presennol: Alwyn E Jones, Alwyn Roberts, BE LP
2. Ymddiheuro: Dewi Jones, Huw Antur
3. Rhoddwyd sylw i adroddiad SAC am y ffurflenni Incwm a gwariant; cytunwyd na ddylid cynnwys y Noson Goffi o fewn corff y fantolen gan nad ydyw'n eitem o fewn y Gyllideb.
4. Cytunodd SAC i edrych eto ar argymhellion BDO 2018-19 a llunio Cynllun Gwella.
5. Astudiwyd Mantolen y Fynwent a chytunwyd fod cyllid ar gael i symud ymlaen gyda phrosiect y Cyngor i dir-lunio'r fynwent. Cytunwyd ymhellach i argymell cadw'r ffioedd yr un fath.
6. Talu Chris Ellis trwy BACS: cytunwyd i ofyn iddo anfon anfoneb am £5 yn llai bob tro er mwyn cwrdd â ffioedd y Banc wrth weithredu ei ddymuniad i gael ei dalu trwy BACS.
7. Llyfr Cyfrifon Newydd: cytunwyd i gadw copi papur a chopi electroneg o gyfrifon y Cyngor, yn hytrach na chopi mewn llawysgrifen mewn llyfr.
8. Prosiectau'r Cyngor:
 - a. Gwaith ar Llwybr Cei: mae gwaith y flwyddyn gyntaf wedi ei gwblhau, wedi ei dalu amdano, a grant PCE wedi ei dderbyn. Bydd gwaith Blwyddyn 2 yn cychwyn yn yr Hydref
 - b. Paneli Gwybodaeth: ymddengys y bydd y prosiect yn agos i derfynau'r gyllideb; mae ychydig yn llai o waith wedi ei wneud gan Mel Parry nag y tybiwyd y byddai ei angen.
9. Yswiriant: mae angen sicrhau fod yr hyn sydd ar ffurflen BDO yn cyd-fynd a gwerth yr ased.
10. Praesept: derbyniwyd Rhan 1 o'r Praesept.
11. Diolchwyd i'r SAC am ei gwaith.